| | |
|---|---|
| **Cynhaliwyd:** | **21 Mehefin 2019** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Howard Sutcliffe** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **David Shiel** |
| **Teitl:** | **Adroddiad ar Effeithiau Ymwelwyr â'r AHNE** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

*Yn haf 2018 fe gomisiynodd yr AHNE NEF Consulting i gynnal arfarniad o effeithiau ymwelwyr er mwyn mesur ac asesu budd economaidd a lles cymdeithasol ac effeithiau amgylcheddol y chwe prif safle i ymwelwyr ar draws yr AHNE.*

- *Traphont Ddŵr a Thraphont y Waun*
- *Parc Gwledig Loggerheads*
- *Parc Gwledig Moel Famau*
- *Panorama*
- *Traphont Ddŵr Pontcysyllte a Basn Trefor*
- *Rhaeadr y Bedol a Maes Llantysilio*

*Nod yr astudiaeth hon oedd i roi gwybodaeth ar gyfer ymateb yr AHNE a Safle Treftadaeth y Byd i'r niferoedd cynyddol o ymwelwyr â'r chwe safle allweddol hwn ac i osod dull cynaliadwy o ran rheoli, gan sicrhau fod capasiti a gwytnwch y safleoedd hyn yn greiddiol i'r dull hwnnw.*

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

*I ddarparu gwybodaeth yn ymwneud â'r budd y mae'r prif safleoedd ymwelwyr yn yr AHNE yn ei ddarparu i gymunedau a busnesau ac i amlygu rhai o'r heriau amgylcheddol a chymdeithasol y mae'r safleoedd hyn yn eu hwynebu.*

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

*Fod y Cyd-bwyllgor yn derbyn yr adroddiad hwn er gwybodaeth a dylai ei gasgliadau ddarparu gwybodaeth ar gyfer cynllunio rheoli yn y dyfodol ar gyfer yr AHNE.*

## 4. Manylion yr Adroddiad.

- *Fe amcangyfrifir fod y chwe safle gyda'i gilydd yn cyfrif am £24.1m mewn gwariant uniongyrchol gan ymwelwyr yn 2018. Amcangyfrifir fod y safleoedd hyn felly yn cyfrif am 19% o holl wariant ymwelwyr yn ardal wledig Sir Ddinbych yn 2018.*

- *Cefnogodd y chwe safle 365 o swyddi cyfwerth â llawn amser ac arwain at £7.8m mewn gwariant anuniongyrchol gan fusnesau i ymwelwyr yn eu cadwyni cyflenwi lleol, gan gefnogi 84 swydd arall cyfwerth â llawn amser yn 2018 (heb gynnwys gwariant ar lety a thripiau).*

- *Ar draws yr holl safleoedd roedd bron i 92% o'r rhai a gymrodd ran yn yr arolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod byw mewn/ger AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn dda i fywyd yn eu cymuned.*

- *Y gwerth ariannol a amcangyfrifir o ran lles a boddhad bywyd sy'n gysylltiedig ag ymweld â Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yw £8.8miliwn – sydd 6.5% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol i Gymru - gan ddefnyddio methodoleg prisio lles*

- *Mae'r manteision i iechyd o werth blwyddyn o gerdded ymwelwyr yn y chwe prif safle AHNE yn gyfystyr ag amcangyfrifiad o £38.1 miliwn mewn gwariant ar iechyd fe ragwelir. O hyn mae amcangyfrifiad o £1.2 miliwn yn ymwneud â gostyngiad tybiedig mewn Clefyd Cardiofasgwlaidd, a £36.8 miliwn arall yn ymwneud â gostyngiad tybiedig mewn clefyd siwgr math 2.*

- *Mae tagfeydd traffig yn fater ymhob safle – ac mae'n cael effaith negyddol ar gymunedau lleol. Mae ymwelwyr yn ystyried fod y tagfeydd traffig yn waeth nac mewn safleoedd eraill y maent wedi ymweld â hwy.*

- *Effeithiau Amgylcheddol - Mae erydu yn fater penodol yn Rhaeadr y Bedol, Loggerheads a Panorama lle mae'r safleoedd yn hynod sensitif - Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.*

- *Mae'r adroddiad wedi argymell cyfres o ymatebion a fydd yn helpu i sicrhau fod yr AHNE yn sicrhau'r budd cymdeithasol ac economaidd mwyaf o gael ymwelwyr i'r prif safleoedd hyn tra'n gostwng yr effeithiau amgylcheddol.*

## 5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?

*Mae'r adroddiad yn rhoi i'r AHNE ddealltwriaeth llawer gwell o'r manteision y mae ymwelwyr â'r prif safleoedd yn eu cyflwyno i'r economi leol a chymunedau gwledig. Mae hyn yn amlygu rhai o'r prif heriau mewn sicrhau fod hyn yn gynaliadwy.*

*Cyfrannu at Amcanion Cynllun Rheoli'r AHNE:*

- ***PolART1 –** I hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy a'r mwynhad a'r dealltwriaeth o dirwedd yr AHNE mewn ffordd sy'n cyfrannu at ffyniant lleol a chynhwysiant cymdeithasol.*

- ***PolART2*** *- Sicrhau bod atyniad tirwedd a golygfeydd yr AHNE fel sail sylfaenol i dwristiaeth yr ardal yn cael eu cadw.*
- ***PolART3*** *- Sicrhau bod yr holl ymwelwyr a phreswylwyr yn gallu profi a mwynhau manteision rhinweddau arbennig yr AHNE o fewn terfynau amgylcheddol.*

*Amcanion Strategaeth Twristiaeth gynaliadwy yr AHNE:*

- ***4*** *- I wella, rheoli a monitro llif ymwelwyr a'r amgylcheddau ar gyfer twristiaeth, gan ledaenu'r manteision a mynd i'r afael ag effeithiau lleol.*
- ***4j*** *- Monitro ac asesu effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol twristiaeth*

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

*Ni cheisiwyd adnoddau ychwanegol.*

*Mae casgliadau'r adroddiad hwn yn bwydo i Strategaeth Twristiaeth Sir Ddinbych sy'n datblygu a'r Cynllun Gweithredu ac mae'r casgliadau'n cael eu hadlewyrchu ynddynt.*

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

*Mae asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn asesu effaith debygol ein penderfyniadau ar bobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir. Mae angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb er mwyn i'r cyngor gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, a dylid eu cynnal ar gyfer unrhyw benderfyniad neu gynnig ar gyfer newid. Mae enghreifftiau'n cynnwys: polisi / gweithdrefn newydd neu ddiwygiedig; cynllun strategol newydd; cynnig arbediad effeithlonrwydd; ail-strwythuro staff, ac ati), er nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr o bell ffordd. Yn y bôn dylem asesu effaith bosibl unrhyw benderfyniad a fydd yn cael unrhyw effaith ar ein cwsmeriaid neu ein staff, i sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd i:*

- *ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth;*
- *hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodweddion a ddiogelir; a*
- *meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodweddion a ddiogelir.*

*Ewch ar y Fewnrwyd am arweiniad ar Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, neu cysylltwch â Karen Beattie, Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol, am ragor o gyngor.*

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

*Mae'r astudiaeth wedi gweithio trwy Weithgor Twristiaeth Gynaliadwy yr AHNE a'r Grŵp Rheoli ymwelwyr ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd. Ymhlith y Partneriaid Allanol fu'n rhan o hyn mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd a Chyngor Sir y Fflint.*
*Roedd ymgynghori gyda'r gymuned a busnes yn rhan allweddol o broses yr astudiaeth a chynhaliwyd nifer o weithdai cymuned a busnes.*

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

*Amh*

**10. Pa risgiau sydd ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

*Adran 101(5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol 2000, lle gall awdurdodau lleol fod yn rhan o drefniant i 'ryddhau swyddogaethau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill drwy gyfrwng Cyd Bwyllgor'*